

**PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 27 GORFFENNAF 2022**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL A GYNHALIWDYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD MERCHER, 27 GORFFENNAF 2022, AM 14:00**

Presennol

Y Cynghorydd J Gebbie – Cadeirydd

F D Bletsoe  
W R Goode  
AJ Williams

JPD Blundell  
J E Pratt  
HM Williams

HJ David  
T Thomas

N Farr  
A Wathan

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JC Spanswick

Swyddogion:

Steve Berry	Swyddog Rhianta Corfforaethol a Chyfranogiad
Alex Fitzpatrick	Rheolwr tîm
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Raeanna Grainger	Rheolwr Gwasanaeth Adolygu Annibynnol
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Laura Kinsey	Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant
Michael Pitman	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau
Mark Shephard	Prif Weithredwr

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

2. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD:

Y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Cabinet Rhianta Corfforaethol wedi'u dyddio 2 Mawrth 2022, fel cofnod gwir a chywir.

3. I DDERBYN CYFLWYNIAD AR WASANAETH GWYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH PEN-Y-BONT AR OGWR

Fe wnaeth y Cadeirydd gyflwyno'r Rheolwr Grŵp Dros Dro — IAA a Diogelu i'r Aelodau, er mwyn rhoi cyflwyniad o'r enw Perfformiad Blynyddol MASH/IAA.

Esboniodd y byddai strwythur y cyflwyniad fel a ganlyn, o ran cwmpasu: -

- Perfformiad
- Gweithlu
- Sicrhau Ansawdd
- Cyllid
- Canmoliaeth a Chwynion
- Gwelliannau a gyflawnwyd
- Summary

Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp Dros Dro — IAA a Diogelu, yn ystod Chwarter 3 y flwyddyn, fod perfformiad wedi dangos dirywiad o fewn y tîm lle roedd y sefyllfa staffio wedyn wedi dirywio. Roedd lefelau salwch uchel iawn gan gynnwys llawer yn ymwneud â Covid ac roedd nifer o staff hefyd wedi gadael y gwasanaeth.

Felly, cafodd digwyddiad tyngedfennol ei alw gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol — Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ar 1 Mawrth 2022. Rhoddwyd strwythurau gorchymyn Aur, Arian ac Efydd ar waith er mwyn sicrhau llywodraethu, tra bod y tîm mewn digwyddiad tyngedfennol.

Yn wyneb y sefyllfa hon, cynhaliwyd cyfarfodydd dyddiol i ystyried y data perfformiad a symudwyd staff o feysydd eraill yn y Gwasanaethau Plant, er mwyn cryfhau'r gwasanaeth.

Datblygwyd cynllun gweithredu IAA ac roedd hwn yn nodi'r camau gweithredu tymor byr, canolig a hir sydd eu hangen i wneud y newidiadau i alluogi'r gwasanaeth i adael y digwyddiad tyngedfennol. Mae'r cynllun gweithredu'n canolbwyntio ar fwy o ymwybyddiaeth sefyllfaol, cyfathrebu, y gweithlu, ymarfer a sicrhau ansawdd, systemau, prosesau, polisïau a gweithdrefnau ac ymarfer a gwaith sicrwydd. Cafodd Tîm Arloesi ei gyflwyno ac fe wnaeth ddechrau ar ei waith ar 21 Mawrth 2022.

Ym mis Ionawr 2022, cynghorodd fod y gyfradd sgrinio yn is na'r lefel dderbyniol. Roedd hyn o ganlyniad i salwch staff, cyfraddau uchel o Covid 19 yn y tîm a swyddi gwag yn cynyddu, a oedd at ei gilydd yn creu ôl-gronid ac o waith. O ganlyniad i hyn, gwnaed rhywfaint o waith arwyddocaol, er mwyn cynyddu capasiti Gweithwyr Cymdeithasol a Rheoli Tîm.

Yna cyflwynodd y tîm nifer o Weithwyr Cymdeithasol asiantaeth. Fe wnaeth hyn alluogi'r tîm i sgrinio o fewn lefelau derbyniol ac o ganlyniad i'r ymgyrch recriwtio hon, roedd cyfraddau sgrinio bellach wedi gwella o fis i fis.

Roedd ymarfer gwell wedi digwydd, er mwyn sicrhau pan fydd cyswllt yn cael ei dderbyn bod pob brawd neu chwaer yn y cartref yn destun asesiad. Mae hyn wedi effeithio'n rhannol ar nifer yr asesiadau sy'n agored i'r gwasanaeth.

Yn Chwarter 4, llwyddodd y tîm i ddyrannu'r holl asesiadau Gofal a Chymorth oedd yn weddi. Cryfhawyd goruchwyliaeth TM hefyd ac mae staff bellach yn cael eu hamserlenni asesu yn ddyddiol sydd â chod lliw i dynnu sylw at yr hyn i'w flaenoriaethu yn gyntaf, o safbwynt gwaith. Y gobaith oedd y bydd hyn yn gwella nifer yr asesiadau a gwblhawyd o fewn yr amserlenni gofynnol ymhellach.

Fe wnaeth y cynllun gwaith â ffocws, cymorth ychwanegol a defnyddio'r tîm asiantaeth a reolir hefyd ganiatáu i'r maes gwasanaeth ddechrau troi'r gornel mewn perthynas â pherfformiad.

Roedd graff a gafodd ei arddangos fel rhan o sleidiau'r cyflwyniad yn adlewyrchu'r gwelliant mewn perfformiad a oedd wedi digwydd rhwng mis Ionawr a mis Mai eleni, esboniodd.

Cafodd hyn ei gadarnhau ar ffurf gwybodaeth ystadegol ychwanegodd y Rheolwr Grŵp IAA a Diogelu, gan y ffaith bod y gwasanaeth wedi derbyn 1332 o adroddiadau yn Chwarter 4, daeth 577 o'r rhain yn asesiadau Gofal a Chymorth (43%). O'i gymharu â'r chwarter blaenorol dim ond 29% oedd wedi mynd yn asesiad Gofal a Chymorth.

Hefyd, ychwanegodd y Rheolwr Grŵp Dros Dro — IAA a Diogelu, bod lefel y cyfarfodydd Strategaeth sy'n cael eu cynnal wedi cynyddu dros yr un cyfnod o'r Chwarter 3 blaenorol ar 118 i 184 yn Chwarter 4.

O ran y Gweithlu Gwasanaethau, dywedodd y bu cynnydd o 25% yng nghapasiti staff a bod ymrwymiad wedi'i wneud, i gadw llwyth achosion tua 25 fesul swydd cyfwerth ag amser llawn.

Ochr yn ochr â darparu goruchwyliaeth wythnosol i ddechrau ac wedyn bob pythefnos, roedd achosion wedi'u datblygu'n fwy effeithlon nag achosion blaenorol, gan gynnwys trosglwyddo'r rhain i'r Tîmau Diogelu.

Roedd y capasiti Rheoli Tîm hefyd wedi cael effaith gadarnhaol gan fod y staff bellach yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi'n well, eu bod nhw'n fwy hyderus i reoli eu llwyth gwaith, ac yn ei dro, roedd hyn wedi lleihau problemau symud.

Roedd y gostyngiad mewn llwythi achosion hefyd wedi galluogi staff i fynychu hyfforddiant pellach, ymgysylltu gyda goruchwyliaeth cyfoedion a chymryd rhan mewn sesiynau lles, fel Ymwybyddiaeth Ofalgar ac yn fuan byddai gweithdai Meithrin Gwydnwch yn cael eu cyflwyno.

Hefyd yn cael ei chyflwyno roedd rhaglen Hyfforddiant Nôl i'r Hanfodion a fyddai'n orfodol ar gyfer yr holl Weithwyr Cymdeithasol (gan gynnwys gweithwyr asiantaeth) fel canlyniad i Adolygiad Cyflym a gynhaliwyd ar ddiwedd 2021. Byddai'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio'n benodol ar chwilfrydedd proffesiynol a chydabod ymddygiad rheolaeth drwy orfodaeth.

Roedd y dulliau Sicrhau Ansawdd a gyflwynwyd hefyd wedi canolbwyntio ar benawdau pwysig megis, Samplu Dip, Archwiliadau ISW, atgyfnerthu goruchwyliaeth reoli, TM yn cadeirio cyfarfodydd Strategaeth ac archwiliadau WCCIS misol gan Reolwyr Tîm.

O ran cyllid, esboniodd y Rheolwr Grŵp Dros Dro - IAA a Diogelu y byddai costau'r Tîm Arloesi a'r 11 Gweithiwr Cymdeithasol asiantaeth oedd wedi'u cyflogi ar gyfer y gwasanaeth Mash/IAA, tua £1.2m erbyn diwedd y flwyddyn. Byddai hyn yn cynnwys materion recriwtio a chadw a materion cysylltiedig eraill, megis costau Recriwtio Gwaith Cymdeithasol Rhyngwladol, Mwy o Leoedd Tyfu eich Gweithiwr eich hun, yn ogystal â chwmpasu Atodiadau Marchnad

Yna eglurodd y Rheolwr Grŵp Dros Dro — IAA a Diogelu sut roedd y tîm wedi gwella o ran ymateb i gwynion yn gyflymach ac roedd hyn wedi'i gydnabod ar ffurf derbyn canmoliaeth gan bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol.

O ran y gwelliannau a wnaed yn gyffredinol, eglurodd y gallai'r rhain gael eu crynhoi fel a ganlyn:-

- Gan y Tîm Arloesi;
- Trwy Bortread Pen o staff;
- Llwybrau cydsynio;
- Yr Adnodd Sgrinio am Gamfanteisio;
- Mwy o gymorth busnes yn ei le;
- Goruchwyliaeth Cyfoedion yn cael ei chyflwyno;
- Mentora yn cael ei roi ar waith;
- Amserlenni RAG Signal Traffig Dyddiol;
- Ymrwymiad i lwythi achosion fod tua 25 ar y mwyaf;
- Cronolegau a genogramau;

- Ers mis Chwefror bu cynnydd sylweddol mewn perfformiad o'i gymharu â chyn hynny

Yn ei chrynodeb o'r cyflwyniad, cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp Dros Dro — IAA a Diogelu fod y Gwasanaeth Mash/IAA wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn y chwarter presennol. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod gwaith i'w wneud o hyd. Y blaenoriaethau yma oedd

- Cwblhau'r Cynllun Gweithredu
- Pob aelod o staff i fynychu Hyfforddiant Nôl i'r Hanfodion
- Gwella recriwtio a chadw staff
- Parhau i gynnig mentrau lles
- Llwythi achosion staff yn ddiogel ac ymarferol

Gofynnodd Aelod a oedd galwadau i ysgolion am gyngor neu wybodaeth ynghylch plant ifanc a disgyblion bellach yn cael eu cofnodi a'u dogfennu am resymau casglu data ac unrhyw gamau dilynol gofynnol ac ati.

Cadarnhaodd y Rheolwr Grŵp Dros Dro — IAA a Diogelu fod hyn yn cael ei ystyried fel rhan o ddyluniadau'r dyfodol ar gyfer y Gwasanaethau Plant.

Fe wnaeth yr Arweinydd ganmol y gwaith a oedd wedi digwydd hyd yma mewn perthynas â Hybiau Diogelu Amlasiantaeth, yr oedd partneriaid allweddol megis Heddlu De Cymru wedi ymgysylltu â nhw, ynghyd â grwpiau gweithredol a rhanddeiliaid eraill.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r cyflwyniad a'r cynnydd cadarnhaol a wnaed o ran Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Pen-y-bont ar Ogwr.

**4. RHOI SIARTER GOFALWYR MAETH AR WAITH**

Fe wnaeth y Rheolwr Tîm — Gofal gan Berthnasau a Sefydlogrwydd gyflwyno adroddiad, a'i bwrpas oedd rhoi diweddariad i Bwyllgor y Cabinet Rhianta Corfforaethol ar ddatblygu Siarter Gofalwyr Maeth ar gyfer Gwasanaeth Maethu Pen-y-bont ar Ogwr a chymeradwyo mabwysiadu a gweithredu'r Siarter ar ran y Cyngor fel Rhieni Corfforaethol.

Eglurodd, fel rhan o Gynllun Datblygu Gwasanaeth Maethu Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2022/23, fod holiadur wedi'i ddatblygu ar y cyd â gofalwyr maeth cyswllt ac wedi'i anfon at bob gofalwr maeth yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau iddynt. Roedd y cwestiynau'n cynnwys pa mor fodlon yw gofalwyr maeth gyda'r Gwasanaeth, beth sy'n gweithio'n dda a meysydd i'w gwella.

Roedd yr adborth a dderbyniwyd mewn perthynas â'r holiadur wedi'i gynnwys yn adran gefndir yr adroddiad.

Yn ogystal â'r uchod, fe wnaeth yr arolwg Cyflwr y Genedl a gynhaliwyd gan y Rhwydwaith Maethu yn 2021, dynnu sylw at y ffaith bod gofalwyr maeth a gwasanaethau maethu yn cytuno mai gwella statws gofalwyr maeth yn y tîm o amgylch y plentyn yw'r prif beth a fydd yn newid profiad plant o ofal maeth er gwell, wrth symud ymlaen.

Ar ben hynny, cynghorodd y Rheolwr Tîm — Gofal gan Berthnasau a Sefydlogrwydd, ers 2011, mae'r Rhwydwaith Maethu wedi bod yn ymgyrchu i bob gwasanaeth maethu ymrwymo i'r Siarter Gofalwyr Maeth, gan nodi disgwyliadau clir o ran sut y dylai gofalwyr

maeth gael eu trin, eu hyfforddi a'u cefnogi, a chytunwyd ar y rhain gan Rieni Corfforaethol, gwasanaeth maethu a gofalwyr maeth. Gall Siarter hefyd helpu i feithrin dealltwriaeth rhwng y rhai sy'n ymwneud â darparu gofal i blant, gan hyrwyddo gweithio mwy cydlynol yn y tîm o amgylch y plentyn a gwella profiadau a chanlyniadau i blant mewn gofal.

Mae'r Siarter Gofalwyr Maeth yn cefnogi cyfrifoldebau awdurdodau lleol fel Rieni Corfforaethol ac yn gosod fframwaith o hawliau a disgwyliadau ar gyfer gofalwyr maeth. Mae'n nodi rolau a chyfrifoldebau ar y cyd, sy'n cael eu 'perchnogi' gan ofalwyr maeth a'r gwasanaeth maethu. Mae'n cwmpasu materion fel goruchwyliaeth, ymwneud â chynllunio a gwneud penderfyniadau, gwybodaeth a thaliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adborth Gofalwyr Maeth ac i wella statws gofalwyr maeth, cynigiwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi Siarter Gofalwyr Maeth (sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad) ar waith yn unol â gwaith ac argymhellion Y Rhwydwaith Maethu yn dilyn eu hadroddiad Cyflwr y Genedl yn 2021.

Mae'r Siarter arfaethedig yn nodi Datganiad Gweledigaeth Gwasanaeth Maethu Pen-y-bont ar Ogwr (a lansiwyd gyda'n Gofalwyr Maeth yn y Digwyddiad Gwybodaeth, Ymgynghori ac Ymgysylltu (ICE) ar 19 Mai 2022

Ychwanegodd fod y Siarter yn nodi'r ymrwymiad canlynol:

'Mae'r Siarter Gofalwyr Maeth yn cynrychioli ymrwymiad ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ei rôl fel y Rhiant Corfforaethol, y gwasanaeth maethu a'r gofalwr maeth i weithio mewn partneriaeth er budd gorau'r plant maen nhw'n gofalu amdanynt. Mae'n addewid, sy'n eiddo i bawb dan sylw, i ymdrechu bob amser i sicrhau arfer gorau.'

Rhannwyd y Siarter arfaethedig gyda gofalwyr maeth yng nghyfarfod ICE ar 19 Mai 2022, gan roi cyfle i ofalwyr drafod a rhoi adborth. Yn gyffredinol, cafodd y cynnig a'r Siarter ei dderbyn yn dda gan y rhai oedd yn bresennol a chytunwyd y byddai sefydlu hyn o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn helpu i godi statws gofalwyr maeth.

Dyweddodd y Rheolwr Tîm — Gofal gan Berthnasau a Sefydlogrwydd, os bydd y cynnig a'r Siarter yn cael eu cynnig gan Bwyllgor y Cabinet, y camau nesaf fyddai datblygu Cynllun Gweithredu a fydd yn cynnwys hunanasesiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) a Gofalwyr Maeth, a fyddai yn eu tro, yn sefydlu llinell sylfaen ac yn nodi'r camau i'w cymryd i wella ar y llinell sylfaen hon.

Cymeradwyodd Aelod y Siarter a'i chynnwys, gan gynnwys y fenter Darparu ar gyfer Chwaraeon a oedd, yn ei farn ef, yn ardderchog. Teimlai hefyd ei bod yn bwysig cydnabod canmoliaeth i blant a oedd yn ymwneud â Gofalu Maeth yn y ddogfen ac roedd y Siarter hefyd yn cydnabod hyn.

Ategodd y Cadeirydd y teimladau hyn, gan ychwanegu ei bod yn falch o gadarnhau mai BCBC oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyflwyno'r Siarter Gofalwyr Maeth.

Daeth yr Arweinydd â'r ddadl i ben drwy ddweud y byddai'n ddefnyddiol derbyn adroddiad pellach maes o law, ar sut yr oedd y Siarter a'i nodau a'i hamcanion yn mynd rhagddynt.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylai'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad a chymeradwyo mabwysiadu a gweithredu'r Siarter Gofalwyr Maeth ar ran y Cyngor fel Rhieni Corfforaethol.

**5. DATBLYGIAD RHIANTA CORFFORAETHOL ARFAETHEDIG**

Cyflwynodd y Swyddog Cyfranogiad Rhianta Corfforaethol adroddiad, a'i bwrpas oedd nodi cynigion i'w hystyried gan Bwyllgor y Cabinet Rhianta Corfforaethol ar gyfer datblygu Rhianta Corfforaethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Cadarnhaodd fod cyfarfod Rhianta Corfforaethol cyntaf Pwyllgor y Cabinet yn y flwyddyn fwrdeistrefol yn gyfle i Ben-y-bont ar Ogwr ddechrau a sefydlu dull diwygiedig o Rianta Corfforaethol.

Fel man cychwyn i ddull newydd, roedd yn bwysig bod cyd-ddealltwriaeth o'r canlynol:

- beth yw Rhianta Corfforaethol;
- pwy sydd â chyfrifoldebau Rhianta Corfforaethol ac yn benodol,
- beth yw'r cyfrifoldebau hyn

Yn dilyn ymlaen o ddealltwriaeth gyffredin o Rianta Corfforaethol, trwy ymgysylltu â Chynghorwyr, y gweithlu, partneriaid ac, yn bwysig, ein plant a'n pobl ifanc, roedd angen cynllun strategol a gweithredol ar gyfer sut mae'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu cyflawni, eu monitro a'u gwerthuso. Cynigir datblygu Gweledigaeth Rhianta Corfforaethol a chynllun Strategol clir drwy'r dulliau a amlinellir ym mharagraff 4.3, dan y penawdau canlynol:

- 1) Sefydlu gweledigaeth gyffredin ar gyfer cyfrifoldebau Rhianta Corfforaethol;
- 2) Sefydlu strwythur llywodraethu sy'n cefnogi'r dull Strategol a Gweithredol o Rianta Corfforaethol;
- 3) Sefydlu Fframwaith Perfformiad Rhianta Corfforaethol, a;
- 4) Sefydlu Fforymau Profiad o Ofal i roi llais cyfunol i'n Plant a'n Pobl Ifanc

O ran goblygiadau ariannol yr adroddiad, dywedodd y Swyddog Cyfranogiad Rhianta Corfforaethol y byddai'r digwyddiad Gweithdy Ymgynghori arfaethedig fel y cyfeirir ato yn yr adroddiad, wedi'i drefnu i'w gynnal ym mis Medi 2022, yn costio tua £400 ac yn cael ei ariannu gan gyllideb Hyfforddi'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Ychwanegodd ymhellach y bydd y cymorth cyfranogiad arbenigol a ddarperir am 12 mis yn costio tua £10,000 ac y bydd yn cael ei ariannu o gyllidebau Gofal Cymdeithasol Plant presennol.

Rhannodd yr Arweinydd nad rôl yr awdurdod lleol a'i Aelodau yn unig oedd Rhianta Corfforaethol, ond roedd yn fwy cyfunol na hynny, h.y. gyda chyfranogiad gweithredol gan gyrrff statudol eraill yn y sector cyhoeddus, megis yr Heddlu, yr Awdurdod Iechyd a'n Hysgolion ymhlith eraill.

Ychwanegodd ei fod yn gobeithio y byddai'r holl bartneriaid allweddol yn mynychu'r Gweithdy Ymgynghori a drefnwyd i'w gynnal fis nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad a chefnogi cynigion yr adroddiadau, er mwyn sefydlu:

- gweledigaeth gyffredin ar gyfer cyfrifoldebau rhianta corfforaethol;

**PWYLLGOR Y CABINET DROS FATERION RHIENI CORFFORAETHOL - DYDD MERCHER, 27 GORFFENNAF 2022**

- strwythur llywodraethu sy'n cefnogi'r dull strategol a gweithredol o Rianta Corfforaethol;
- Fframwaith Perfformiad Rhianta Corfforaethol;
- fforymau profiad o ofal i roi llais cyfunol i'n plant a'n pobl ifanc.

6. **EITEMAU BRYS**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:05